Y S G O L G Y F U N
RHYDYWAUN
*Bydd Wir Bydd Weithgar*
**Mr Mark Jones BEng (Hons), NPQH** Pennaeth / Headteacher
Rhodfa Lawrence/Lawrence Ave, Penywaun, Aberdâr, CF44 9ES
Ffôn/Tel: 01685 813500; Ffacs/Fax: 01685 812208 ysgol@rhydywaun.org

31.3.17

Annwyl Riant / Warcheidwad

Mae'n bleser gen i ysgrifennu atoch gyda manylion cystadlaethau Rhydywaun fydd yn ein cynrychioli yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái rhwng 29 Mai - 3 Mehefin 2017. Cawsom Eisteddfod Sir lwyddiannus ac rydym yn gyffrous iawn. Isod ceir manylion y cystadlaethau. Gwnewch yn siwr eich bod yn eu nodi yn eich dyddiadur. Cadwch ddydd Mawrth 30.5.17 yn rhydd rhag ofn y bydd angen cynnal ymarferion yn yr ysgol.

Byddwn yn trefnu bysiau ar gyfer y cystadlaethau drama ddydd Iau ac ar gyfer y gerddorfa nos Wener. Gofynnwn i ddisgyblion sy'n perfformio unawd wneud eu trefniadau eu hunain i gyrraedd y maes. Bydd yr ysgol yn talu am docynnau cystadleuwyr.

Bydd llythyr arall gyda thaflen feddygol a slip caniatad i ddilyn ar ôl y gwyliau Pasg. Mae croeso i chi gysylltu â fi (elengeorge@rhydywaun.org) am fwy o wybodaeth.

Yn gywir

Mrs Elen George
Pennaeth Cynorthwyol

Y S G O L   G Y F U N
RHYDYWAUN
**Mr Mark Jones BEng (Hons), NPQH** Pennaeth / Headteacher
Rhodfa Lawrence/Lawrence Ave, Penywaun, Aberdâr, CF44 9ES
Ffôn/Tel: 01685 813500; Ffacs/Fax: 01685 812208 ysgol@rhydywaun.org

*Bydd Wir Bydd Weithgar*

| | CYSTADLEUAETH | DYDD | AMSER RHAGBRAWF | LLEOLIAD RHAGBRAWF | AMSER LLWYFAN |
|---|---|---|---|---|---|
| 197 | Unawd Merched Bl.10 a dan 19 oed | Gwener 2.6.17 | 07:45 | Stiwdio 2 | 12:15 |
| 233 | Unawd Telyn Bl.7-9 | Mercher 31.5.17 | 07:45 | Stiwdio 1 | 11:00 |
| 238 | Unawd Piano Bl.7-9 | Iau 1.6.17 | 07:45 | Stiwdio 4 | 12:20 |
| 241 | Unawd Telyn Bl.10 a dan 19 oed | Gwener 2.6.17 | 07:30 | Pafiliwn | 09:45 |
| 252 | Cerddorfa/Band dan 19 oed | Gwener (nos) 2.6.17 | | Pafiliwn | 18:30 |
| 284 | CogUrdd Bl.7-9 | Mawrth 30.5.17 | O 8:00 ymlaen | CogUrdd | |
| 307 | Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo Unigol Bl.7-9 | Mercher 31.5.17 | 17:30 | Pafiliwn | 17:30 |
| 408 | Ymgom Bl.7-9 | Mercher 31.5.17 | 12:00 | Stiwdio 4 | 15:25 |
| 409 | Cyflwyniad Dramatig Bl.7-9 | Iau 1.6.17 | 12:00 | Stiwdio 4 | 17:50 |
| 410 | Ymgom Bl.10 a dan 19 oed | Gwener 2.6.17 | 09:45 | Stiwdio 2 | 12:30 |
| 411 | Cyflwyniad Dramatig Bl.10 a dan 19 oed | Iau 1.6.17 | 14:30 | Stiwdio 4 | 19:20 |
| 416 | Monolog Bl.10 a dan 19 oed | Iau 1.6.17 | 14:00 | Stiwdio 3 | 19:05 |
| 419 | Unawd allan o Sioe Gerdd Bl.10 a dan 19 oed | Iau 1.6.17 | 14:30 | Stiwdio 2 | 19:20 |